

BWRDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU
COFNODION Y CYFARFOD DDYDD IAU 15 HYDREF 2020

Aelodau oedd yn bresennol:

Isobel Everett	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Amanda Hughes	Aelod etholedig sy'n gyflogai
Anne Beegan	Aelod etholedig sy'n gyflogai
David Francis	Aelod anweithredol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Lindsay Foyster	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Ymddiheuriad:

Kevin Thomas, Aelod penodedig sy'n gyflogai a Chyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS)

Hefyd yn bresennol:

Katherine Drysdale	Arbenigwr y Gyfraith a Moeseg (cofnodion)
Clare James	Rheolwr Archwilio a Chadeirydd Pawb (eitem 3)
Matthew Hockridge	Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 3 a 5)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitem 6)
Siobhan Cole	Pennaeth Adnoddau Dynol (eitem 3)

Yn arsylwi:

Ian Rees	Aelod anweithredol etholedig
----------	------------------------------

Eitem	Agenda
Rhan 1: materion rhagarweiniol	
1	Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2	Datganiadau o fuddiannau
Rhan 2: trafodaeth strategol	
3	Adroddiad cydraddoldeb: trafodaeth
Rhan 3: i'w cymeradwyo	
4	Cofnodion y cyfarfod ar 23 a 24 Medi 2020 ac unrhyw faterion sy'n codi (gan ddefnyddio'r traciwr camau gweithredu)
5	Adroddiad interim 2020-21
6	Yr amcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau 2021-22
7	Penodiadau'r Pwyllgor
8	Unrhyw fater arall
9	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 24 a dydd Iau 25 Tachwedd 2020

Eitem	Cofnodion	Gweithr edu
Rhan 1: materion rhagarweiniol		
1.	Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol, gan nodi ymddiheuriad gan Kevin Thomas.	
2.	Datganiadau o fuddiannau	
2.1	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	
Rhan 2: trafodaeth strategol		
3.	Adroddiad Cydraddoldeb 2020-21	
3.1	Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd gyflwyniad yn rhoi trosolwg o amcanion cydraddoldeb cyfredol Archwilio Cymru a pherfformiad yn eu herbyn. Esboniodd fod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd yn rhagddyddio uchelgeisiau ac amcanion strategol mwy diweddar Archwilio Cymru ac y byddai'n elwa o gael ei adolygu yn ystod 2021.	
3.2	<p>Atgoffodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd y Bwrdd o'r pwyntiau allweddol o drafodaeth y Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 a, gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol, darparodd ddiweddariad byr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflogeion o blith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) – gwnaed cynnydd yn erbyn y targed o gyfateb proffil poblogaeth Cymru dros gyfnod o dair blynedd gyda chynnydd yn nifer y staff BAME o 2.9% i 4%, fodd bynnag, roedd proffil poblogaeth Cymru hefyd wedi symud o 4.8% i 6%; • Bwlch cyflog rhwng y rhywiau – nid oedd targedau wedi'u pennu, ac er bod bwlch cyflog Archwilio Cymru ychydig yn uwch na Llywodraeth Cymru a chyrrff archwilio cyfatebol, roedd yn gyson â'r cwmnïau i raddau helaeth; • Prosesau recriwtio – roedd gwaith wedi'i wneud, neu ar y gweill, er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> – gwella'r broses recriwtio; – datblygu'r wefan i gynnwys straeon personol am weithio yn Archwilio Cymru, gan gynnwys profiadau staff â nodweddion gwarchoddedig; – mynd i'r afael â rhwystrau, megis rhagfarn ddjarwybod, drwy hyfforddiant i recriwtwyr; – datblygu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar-lein gorfodol ehangach i'r holl staff; a – datblygu sesiynau atgyfnerthu sgiliau mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid. 	
3.3	Tynnodd y Pennaeth Adnoddau Dynol sylw at y ffaith bod Archwilio Cymru wedi cadw ei wobwr Chwarae Teg arian a bod y tîm Adnoddau Dynol yn adolygu'r cynlluniau ar gyfer gwaith allgymorth, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn gynharach yn y flwyddyn, yng ngoleuni effaith Covid-19.	
3.4	Cydnabu Cadeirydd Pawb y gwaith a wnaed ym meysydd recriwtio, o ran denu hyfforddeion benywaidd a BAME, ac allgymorth. Cydnabu y gallai gosod targedau, megis lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ddarparu	

Eitem	Cofnodion	Gweithr edu
	nodau diffiniedig, ond y gallai datblygu dyhead ar gyfer y ffordd mae Archwilio Cymru yn edrych ac yn teimlo yn y tymor hwy gefnogi newid yn well, wedi'i ategu trwy gymhwyso gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru yn ymarferol.	
3.5	<p>Trafododd y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr angen i fynegi dyhead ynghylch sicrhau gweithlu mwy cynhwysol ac amrywiol; nid mater o ddyletswydd gyfreithiol a chydymffurfiaeth yn unig oedd hyn ond bod manteision busnes ac achos moesol dros wneud hynny; • yr heriau o leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, yn enwedig ar lefelau uwch yn y sefydliad; a'r • anawsterau o ran denu a phenodi ymgeiswyr BAME yn llwyddiannus. 	
3.6	Nododd y Bwrdd fod y tîm Adnoddau Dynol, wrth adolygu meini prawf asesu a disgrifiadau rôl, yn archwilio sut i gydbwysu sgiliau a chymwyseddau proffesiynol â gwerthoedd ac ymddygiadau. Roedd yn edrych ar fodolau fel Fframwaith Proffil Llwyddiant y Gwasanaeth Sifil, a oedd fel pe bai'n cefnogi lefelau uwch o recriwtio'r rhai â nodweddion gwarchoddedig.	
3.7	<p>Yn ei drafodaethau, anogodd y Bwrdd y rheolwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ystyried sut i fesur canlyniadau ac effaith gweithgareddau recriwtio a hyfforddi er mwyn rhoi sicrwydd bod Archwilio Cymru yn gwneud y pethau iawn; • sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod gweithgareddau'n cael eu cydgysylltu i sicrhau'r effaith fwyaf posibl a'r defnydd o adnoddau; • ystyried sut i flaenoriaethu gwaith y tîm Adnoddau Dynol er mwyn cael yr effaith orau; a • datblygu ei syniadau ynghylch dyheadau Archwilio Cymru ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ei weithlu. 	
3.8	Cytunodd y Bwrdd ei bod yn bryd adnewyddu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i gysoni amcanion cydraddoldeb ag uchelgeisiau'r sefydliad, gan gydnabod bod hwn hefyd yn gyfle i osod amcanion yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai'r Cadeirydd newydd a'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn cynllunio amseriad yr adolygiad i gynnwys y Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd.	LF / MH
3.9	Byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn cyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb drafft i'r Bwrdd ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, a byddai'n cynllunio'r dull o adnewyddu adroddiad mis Tachwedd a fformat adroddiad mis Tachwedd gyda'r Cadeirydd newydd.	MH / LF
Rhan 3: i'w cymeradwyo		
4.	Cofnodion y cyfarfod ar 23 a 24 Medi 2020 ac unrhyw faterion sy'n codi (gan ddefnyddio'r traciwr camau gweithredu)	
4.1	Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.	
4.2	Trafododd y Bwrdd y materion a oedd yn codi o'i gyfarfodydd blaenorol gan ddefnyddio'r traciwr gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei ddiweddarau.	KD
5.	Adroddiad Interim 2020-21	

Eitem	Cofnodion	Gweithr edu
5.1	Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd adroddiad interim drafft 2020-21 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Nododd y Bwrdd y byddai Pwyllgor Cyllid y Senedd yn ystyried yr adroddiad interim ar 02 Tachwedd 2020.	
5.2	<p>Awgrymodd y Bwrdd rywfaint o waith pellach i helpu eglurder gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) datblygu rhagair yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu crynodeb clir o'r hyn a oedd wedi newid oherwydd y pandemig; b) mewnosod rhagair byr gan y Cadeirydd er mwyn cyflawnder; c) mireinio'r diweddariad cyflenwi ar gyfer yr adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'; d) egluro bod y Bwrdd wedi'i sicrhau gan ymateb y rheolwyr i bandemig Covid-19 a'i ffocws ar staff a'u cefnogaeth iddynt; e) diwygio'r testun ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer cyflawni gwaith archwilio i gyfeirio at gyflawni erbyn y dyddiad cau estynedig diwygiedig (yn hytrach na'r dyddiad cau statudol); f) gwirio a mireinio'r disgrifiad o dargedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a pherfformiad yn erbyn targedau, er mwyn adlewyrchu perfformiad yn gywir am yr hanner blwyddyn; a g) gwirio bod gwerth yr arbedion a nodwyd yn cyfateb yn gywir i'r cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad interim. <p>Byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn cysylltu â chydweithwyr, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Cadeirydd i ddatblygu'r adroddiad i fynd i'r afael ag awgrymiadau'r Bwrdd.</p>	MH
5.3	Yn ei drafodaethau nododd y Bwrdd fod cyfle i ddangos ymrwymiad y Bwrdd i ddwyieithrwydd drwy ymgorffori adran ddwyieithog o'r rhagair yn fersiynau Cymraeg a Saesneg yr adroddiad. Byddai'r Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yn ystyried hyn ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.	MH
5.4	Yn amodol ar fân ddiwygiadau a chywiriadau, cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Interim 2020-21 i'w osod gerbron y Senedd.	MH
6.	Yr amcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau 2021-22	
6.1	Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr amcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau ar gyfer 2021-22 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnodd sylw at y ffaith bod rhai mân gywiriadau wedi'u gwneud ar ôl i'r papur gael ei ddsbarthu i'r aelodau.	
6.2	Yn amodol ar fân ddiwygiad i'r rhagair, cymeradwyodd y Bwrdd yr amcangyfrif ar y cyd o incwm a threuliau ar gyfer 2021-22 i'w osod gerbron y Senedd.	NE
7.	Penodiadau'r Pwyllgor	
7.1	<p>Cyflwynodd y Cadeirydd newydd bapur yn nodi cynigion ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • aelodaeth o Bwyllgorau'r Bwrdd; • estyniad contract i aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn ymarfer recriwtio agored ar gyfer y rôl yn 2021; • penodi'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol; a • Rolau cyswllt y Bwrdd. 	
7.2	Cymeradwyodd y Bwrdd:	

Eitem	Cofnodion	Gweithr edu
	<ul style="list-style-type: none"> a) aelodaeth ddiwygiedig y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Ian Rees (Cadeirydd), Anne Beegan, David Francis a Diane Thomas (Aelod Annibynnol); b) aelodaeth ddiwygiedig y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol: Alison Gerrard (Cadeirydd), Amanda Hughes, Lindsay Foyster ac Elinor Gwynn c) penodi David Francis yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol; d) ymestyn tymor presennol (cyntaf) aelod annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg tan 30 Mehefin 2021; e) ymarfer recriwtio cystadleuaeth agored i lenwi rôl yr aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i fod yn weithredol o 01 Gorffennaf 2021, natur a chwmpas yr ymarfer recriwtio i'w gytuno a'i weithredu cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn 2021; a f) phenodi Elinor Gwynn yn aelod cyswllt y Bwrdd dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. 	
8	Unrhyw fater arall	
8.1	Canmolodd y Bwrdd Isobel Everett am ei hymroddiad, ei chyfraniad a'i harweinyddiaeth o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru o'i ddechreuadau hyd heddiw. Diolchodd yr Aelodau i Isobel am ei chefnogaeth gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.	
9.	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
9.1	Dydd Mercher 24 a dydd Iau 25 Tachwedd 2020	